

HUGHES, DAVID (1800 - 1849), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: David Hughes
Dyddiad geni: 1800
Dyddiad marw: 1849
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn Amlwch, sir Fôn, mab amaethwr cefnog. Cafodd addysg dda yng nghylch ei gartref; bu hefyd mewn ysgol yn Lerpwl. Ymaelododd yng nghapel y Tabernacl, Lerpwl, o dan weinidogaeth **John Breese**, a dechreuodd bregethu yno. Wedi iddo fod yng Ngholeg Caerfyrddin, 1824-28, urddwyd ef yn weinidog eglwys Heol y Felin, Casnewydd-ar-Wyseg, 1 Ionawr 1829. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach urddwyd ef (11-13 Mehefin 1839) yn weinidog Trelech, Sir Gaerfyrddin. Cyhoeddodd *Holwyddoreg* gwerthfawr at wasanaeth ysgolion Sul, a bu'n gweithio'n ddyfal am flynyddoedd ar eiriadur cyffredinol ond ni orffennwyd mohono. Bu farw 20 Chwefror 1849.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

E. Pan Jones, *Oriel Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin: yn cynwys hanes yr holl fyfyrwyr fu yn y coleg o 1796 hyd 1899*(Merthyr Tydfil 1909), 45

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 397, 403-6

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdŷr 1867-70)*, i, 544-7

Walter J. Evans, NLW MS 10327B: Carmarthen Presbyterian College roll of students

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821104](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Owen, J. D., (1953). HUGHES, DAVID (1800 - 1849), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-DAV-1800>

frannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government